# Geoparc
# Y Fforest Fawr

FFOREST FAWR
GEOPARK

## Canllaw i archwilio hanner gorllewinol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.




www.geoparcyfforestfawr.org.uk

BRECON BEACONS
OUR NATIONAL PARK

GLOBAL GEOPARKS NETWORK

PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG
BRECON BEACONS NATIONAL PARK

European Geoparks

BANNAU BRYCHEINIOG
EIN PARC CENEDLAETHOL



# Dyddiau allan i'w mwynhau yn
# Geoparc y Fforest Fawr

**Ystyried treulio tipyn o'ch amser yn ymweld â'r Geoparc?**

Dyma rai awgrymiadau am fannau i ymweld â nhw, pethau i'w gweld a'u gwneud er mwyn gwneud eich ymweliad â'r Geoparc, hanner mwyaf gorllewinol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yn un bythgofiadwy. Mae'r rhain wedi'u trefnu yn ôl faint o amser sydd gennych; efallai fod gennych hanner diwrnod, neu hyd yn oed ddiwrnod cyfan, i'w dreulio yno, neu efallai awr yn unig i'w sbario. Wrth gwrs, gallech ymestyn neu gwtogi'r ymweliad fel rydych chi'n dymuno. Dewch i ddeall datblygiad yr ardal a'i hanes, archaeoleg, chwedlau a bywyd gwyllt drwy gyfrwng Geolwybrau a thaflenni am droeon eraill, arddangosfeydd, llwybrau llafar, a phaneli gwybodaeth. Cadwch lygad barcud hefyd am ddigwyddiadau unigol sydd wedi'u trefnu yn ystod y flwyddyn gan Geoparc y Fforest Fawr, ac yn arbennig yn ystod Gŵyl Flynyddol y Fforest Fawr yn niwedd Mai a dechrau Mehefin.

Mwy o wybodaeth ar y wefan
**www.geoparcyfforestfawr.org.uk**

## Allwedd i'r eiconau a ddefnyddir yn y canllaw

**OS** Cyfeirnod grid Arolwg Ordnans 6 rhif ar gyfer mynediad safle

**NAV** Cod post sy'n gweithio efo'r Sat Nav

Rhif ffôn

Y wefan berthnasol

### Cyrraedd yno

**Nid yw llawer o atyniadau'r ardal wledig hon ar lwybr bws, nac o fewn cyrraedd i'r rheilffordd. Mae gwasanaeth tacsi ar gael ymhobman – mwy o wybodaeth ar: www.cymraeg.traveline-cymru.info**

Y llwybr bws agosaf a'i bellter ar y ffordd

Yr orsaf drên agosaf a'i phellter ar y ffordd

**P** FREE Parcio am ddim

**P&D** Parcio talu ac arddangos

Gallwch ddod o hyd i amseroedd y bysiau nesaf o unrhyw arosfan o **nextbuses.mobi** neu lawrl-wythwch yr app

### Cyfleusterau

**Beth fydd yno'n eich disgwyl? Cofiwch nad ydy pob cyfleuster ar agor bob dydd o'r wythnos, ac y gallai rhai fod ar gau neu'n cyfyngu ar eu horiau agor yn ystod misoedd y gaeaf. Cofiwch hefyd y gall manylion am atyniadau newid; mae'n well edrych ar y we er mwyn gwirio'ch gwybodaeth, neu gallech ffonio neu holi mewn canolfan ymwelwyr cyn cychwyn.**

**£** Rhaid talu i fynd i'r safle

**AM DDIM** Mynediad i'r atyniad am ddim



WC Cyfleusterau cyhoeddus ar gael

Taflen am y safle/ llwybr/ llwybr llafar ar gael

Caffi/bwyty/ystafell de ar y safle

Cyfleusterau picnic ar gael

Safle o ddiddordeb archaeolegol neu hanesyddol

Safle o ddiddordeb archaeolegol diwydiannol

Gwarchodfa natur neu safle bywyd gwyllt neilltuol

Awgrym tywydd gwlyb

## Mae hon yn dirwedd a luniwyd gan graig

**Cofiwch nad oes angen gwybodaeth ddaearegol arbenigol arnoch chi i'w fwynhau. Er bod y Geoparc yn ardal ddaearegol eithriadol, nid creigiau ydy'r unig bethau o ddiddordeb, fel sy'n amlwg o'r canllaw hwn. Er hynny, chwiliwch am yr eiconau hyn, sy'n rhoi awgrym ichi o beth sydd ar gael i'w weld:**

O ddiddordeb daearegol - dan eich traed mae haenau o graig

Tirwedd Carst wedi'i greu wrth i galchfaen doddi i lunio ogofâu, calchbalmentydd, ffynhonnau a llyncdyllau (dolinau)

Ffawtiau a phlygiadau daearegol - mae rhai o'r creigiau hyn wedi cracio a chrychu!

Etifeddiaeth o'r Oes Iâ - Iluniwyd ein daear gan rewlifoedd yn ystod cyfres o oesoedd iâ

O ddiddordeb mwyngloddio neu chwarelydda - cloddiwyd mwynau gwerthfawr o'r ddaear hon am ganrifoedd

Os mai gwybodaeth am greigiau sy'n mynd â'ch bryd, chwiliwch am y daflen gyffredinol. Os hoffech gael mwy o fanylion, chwiliwch ar silffoedd y canolfannau ymwelwyr o fewn y Geoparc. Mae yno rywbeth at ddant pawb, gan gynnwys map daearegol 1:50,000 newydd sbon yn 2014 o Geoparc y Fforest Fawr gan Arolwg Daearegol Prydain.

## Wyddoch chi?

Mae nifer gynyddol o bobl leol sy'n rhedeg busnesau twristaidd yn yr ardal yn Llysgenhadon dros y Parc Cenedlaethol a thros y Geoparc. Mae'r rhain wedi ymrwymo a chael hyfforddiant i sicrhau fod ymwelwyr yn mwynhau'r amser gorau posib yma, ac maen nhw'n wybodus iawn am y Geoparc. Ewch i **www.breconbeacons.org/ambassadors**

## Tywyllwch yn y Geoparc

Gwnaed datganiad yn 2013 mai Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ydy'r ardal awyr dywyll ryngwladol gyntaf yng Nghymru (International Dark Sky Reserve), ac mai yn Geoparc y Fforest Fawr mae'r tywyllwch mwyaf dudew. Er mwyn i bawb gael mwynhau gwylio'r sêr, mae digwyddiadau penodol yn cael eu trefnu'n gyson - trefnu'r llawer gan ein Llysgenhadon Awyr Dywyll. Ewch i **www.breconbeacons.org/stargazing**

# 1. Cestyll a chlogwyni

## Castell Carreg Cennen a bryngaer Garn Goch o'r Oes Haearn

**Ewch i weld Castell Carreg Cennen ger Llandeilo yn ei holl ogoniant. Mae'n crogi ar glogwyn calchfaen serth 100m o uchder yn edrych i gyfeiriad yr Afon Cennen, ac mae'r cadarnle ganoloesol hon gyda'i hanes maith a brith bellach dan ofal Cadw. Cofiwch ymweld â'r ystafell de a'r siop grefftau ar y fferm cyn cerdded rhyw ychydig at adfeilion y castell.**

Heb fod ymhell i lawr y ffordd (neu ar hyd Ffordd y Bannau) dewch at Y Gaer Fawr, y fryngaer fwyaf yn Ne Cymru, ac un o ddwy yn Garn Goch sy'n edrych dros bentref Bethlehem. Bu unwaith yn gadarnle i lwyth y Silwriaid, a'i dewisodd o bosib am ei olygfa dros Ddyffryn Tywi. Bellach, mae'n werth ichi dreulio awr neu ddwy yn ei archwilio. Yng Nghanolfan Ymwelwyr Llanymddyfri gallwch gael gafael ar daflen Geolwybr Garn Goch (£1). Mae man bwydo'r Barcud Coch, a hefyd Barc Dinefwr, Newton House a Chastell sy'n perthyn i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, o fewn tafliad carreg.




Castell Carreg Cennen

## Castell Carreg Cennen

**OS** SN 668191 **NAV** SA19 6UA 01558 822291 www.carregcennencastle.com

**Cyrraedd yno** (Rheilffordd Calon Cymru) Ffairfach, Llandeilo 3.7/4.5 milltir P FREE

### Os oes gennych awr neu lai:

Paned a chacen yn ystafell de'r Castell

P FREE AM DDIM WC

Ymweld â Garn Goch - dilynwch y Geolwybr cyfan os oes gennych ddigon o amser

**OS** SN 682243 **NAV** SA19 6YW

P FREE AM DDIM

Neuadd Bentref Trap a'r caffi

**OS** SN 652188 **NAV** SA19 6TR 01558 823213

P FREE AM DDIM WC www.trapvillagehall.com

### Os oes gennych hanner diwrnod (2-4 awr):

Ymweld â Chastell Carreg Cennen a'r goedwig

P FREE £

Archwilio Llandeilo, tref hanesyddol

Ymweld â Pharc Dinefwr £

Castell Dinefwr a Thŷ Newton £ WC

**OS** SN 625225 **NAV** SA19 6RT

01558 824512

www.nationaltrust.org.uk/dinefwr

### Os oes gennych ddiwrnod llawn (6-8 awr):

Cerddwch y darn cyntaf o Ffordd y Bannau rhwng Bethlehem a Chwarel Herbert, Y Mynydd Du

**OS** SN 733186

www.breconbeacons.org /blackmountainquarries

P FREE AM DDIM




## Oeddech chi'n gwybod?

Fod Castell Carreg Cennen wedi cael ei ddisgrifio fel y castell mwyaf rhamantus yng Nghymru gyfan.

# 2. Dŵr a Choedwigoedd, Llwybrau a Threnau

## Coedwig Garwnant a Chanolfan Ymwelwyr, Coedwig Taf Fechan

**Dafliad carreg o'r A470, mae gan Ganolfan Ymwelwyr Garwnant wybodaeth, parc chwarae i'r plant, a bwyty. Cerddwch un o lwybrau'r goedwig - mae gan rai ohonynt thema ddaearegol. I gerddwyr o ddifrif, mae Taith Taf yn mynd heibio'r ganolfan i Gwm Taf, ac mae llwybr penodol i feicwyr yn dilyn yr hen reilffordd o Gefncoedycymer i fyny'r cwm a thrwy'r goedwig.**

Mae pen Cwm Taf Fechan yn lle delfrydol ar gyfer cychwyn am dro hirach ar y Bannau. Gall y rhai sydd heb gymaint o egni fwynhau trip ar Rheilffordd Mynydd Brycheiniog ger Pontsticill. Mae'r Rheilffordd a Pharc Cyfarthfa gerllaw, y Castell, yr Amgueddfa a'r Oriel i gyd yn llefydd sy'n estyn croeso i deuluoedd, ac yn ddengar os yw'r tywydd yn dechrau troi!



CADWCH LYGAD BARCUD AM

garreg laid ronynnog

ar lannau nentydd

©Hawlfraint y Goron

Canolfan Ymwelwyr Garwnant

## Canolfan Ymwelwyr Garwnant

OS SO 003132 NAV CF48 2HU 01685 722481 www.facebook.com/GarwnantVisitorCentre

Cyrraedd yno T4 Merthyr Tudful (5 milltir) P FREE

Chwiliwch am 'Taff Trail' yn www.breconbeacons.org

### Os oes gennych awr neu lai:

Y llwybr cerfluniau o Garwnant P&D AM DDIM

Tro o gwmpas Distyllfa Wisgi Cymreig Penderyn

£ WC

OS SN 952084 NAV CF44 9JW 01685 810650

www.welsh-whisky.co.uk

Bwyd a diod ym mwyty Garwnant

P&D AM DDIM WC

### Os oes gennych hanner diwrnod (2-4 awr):

Cerdded neu feicio ar hyd un o'r llwybrau hirach trwy'r goedwig

AM DDIM

Ewch am drip ar Reilffordd Mynydd Brycheiniog

OS SO 059097 NAV CF48 2UP 01685 722988

www.breconmountainrailway.co.uk

P FREE £ WC

Parc a Chastell Cyfarthfa, Amgueddfa ac Oriel

OS SO 042074 NAV CF47 8PA 01685 727371

www.cyfarthfa.com

P FREE AM DDIM WC

### Os oes gennych ddiwrnod llawn (6-8 awr):

Cerdded neu feicio darn o Daith Taf AM DDIM

chwiliwch am 'Taff Trail' yn www.breconbeacons.org




## Oeddech chi'n gwybod?

Mae Taith Taf yn ymestyn yr holl ffordd i Gaerdydd ac mae yn 55 milltir / 88km o hyd.

# 3. Ogofâu ac Odynau: treiddio i mewn i'r gwyllt

## Parc Gwledig Craig-y-nos a Phenwyllt

**Dechreuwch wella'ch adnabyddiaeth o Gwm Tawe drwy ymweld â Pharc Gwledig Craig-y-nos.**

Ar draws y dyffryn, gallwch fwynhau awyrgylch Penwyllt - tramfyrdd segur, odynau calch a hen waith brics gerllaw Ogof Ffynnon Ddu sy'n Warchodfa Natur Genedlaethol. Mae'r warchodfa'n amddiffyn calchbalmentydd ar y wyneb, ac ogof ddyfnaf Prydain (308m) oddi tanodd. Drwy'r ardal hon, mae Ffordd y Bannau yn dirwyn ei llwybr o'r Mynydd Du anghysbell a gwyllt i fryniau gwahanol iawn Fforest Fawr. Heb fod ymhell, mae crib arw Cribarth gyda'i chreigiau calchfaen, hen chwareli a thramffyrdd.




Penwyllt a Fan Gyhirych o Gribarth

## Parc Gwledig Craig-y-nos

**OS** SN 840155 **NAV** SA9 1GL 01639 730395 www.breconbeacons.org

**Cyrraedd yno** X63 ar hyd yr A4067 Castell Nedd (15.5 milltir) P&D

### Os oes gennych awr neu lai:

Mwynhewch y caffi, y maes chwarae a chael tro o gwmpas y parc gwledig

www.breconbeacons.org/ogof-ffynnon-ddu-nnr

P&D AM DDIM WC

Ewch am dro byr i'r Warchodfa Natur Genedlaethol ar hyd hen Dramffordd Fforest Brycheiniog

**OS** SN 855155 **NAV** SA9 1GQ

AM DDIM

### Os oes gennych hanner diwrnod (2-4 awr):

Dilynwch Llwybr Penwyllt ar y cerdyn o'r parc gwledig. Gwrando ar y podlediad

www.geoparcyfforestfawr.org.uk/llawrlwytho

P&D AM DDIM

Dilynwch Geolwybr Sgwd Henrhyd i lawr i Afon Tawe, neu dro 'Llinellau yn y Tirlun' ar hyd Sarn Helen a hen dramffyrdd.

**OS** SN 853120 **NAV** SA10 9PG

P FREE AM DDIM

Archwilio Cribarth, mynydd calchfaen diddorol iawn

AM DDIM

### Os oes gennych ddiwrnod llawn (6-8 awr):

Dilynwch Ffordd y Bannau tua'r dwyrain o Benwyllt drwy Warchodfa Natur Genedlaethol Ogof Ffynnon Ddu

**OS** SN 855155 **NAV** SA9 1GQ

P FREE

Gwrando ar y podlediad wrth gerdded i Waun Fignen Felen

www.geoparcyfforestfawr.org.uk/llawrlwytho

AM DDIM




## Oeddech chi'n gwybod?

Fod cantores opera bedwaredd ganrif ar bymtheg Adelina Patti yn byw yng Nghraig-y-nos - roedd hi'n bosibl y superstar byd-eang cyntaf - y Lady Gaga ar ei diwrnod!

# 4. Bro chwedlonol

## Llanymddyfri a Myddfai




**Ewch am ymweliad â thref farchnad y Canolbarth sef Llanymddyfri yn Nyffryn Tywi, lle caiff tywysogion Cymru a phorthmyn eu clodfori.**

Chwiliwch am bentref traddodiadol Myddfai yn Sir Gaerfyrddin. Yno gallwch gael paned a chacen yn y neuadd bentref sydd hefyd yn ganolfan ymwelwyr, a dod i wybod am chwedl Morwyn Llyn y Fan Fach, a Meddygon Myddfai.  Yna, ewch ar hyd bryniau'r Tywodfaen Coch tua'r de, neu dilynwch gamau'r Rhufeiniaid a chwarelwyr teils carreg ar Fynydd Myddfai. Dewch â beic gyda chi, neu benthycwch un o siop leol er mwyn dod i adnabod y gornel ddiwylliannol hon o'r Geoparc.

## Oeddech chi'n gwybod?

Mae 'Epoc Llandovery' (Llanymddyfri) yn derm a ddefnyddir gan ddaearegwyr o amgylch y byd wrth siarad o ddigwyddiadau daearegol 440 miliwn o flynyddoedd yn ôl - boed yng Nghymru, Tsieina neu Periw!



Llanymddyfri

## Canolfan Groeso a Threftadaeth Llanymddyfri

**OS** SN 767343 **NAV** SA20 0AW 01550 720693 www.breconbeacons.org

**Cyrraedd yno** 80, Bws y Bannau B10 Llanymddyfri (Rheilffordd Calon Cymru), (0.3milltir) P&D

### Os oes gennych awr neu lai:

Paned a chacen yng Nghanolfan Ymwelwyr Myddfai

P FREE AM DDIM WC

**OS** SN 772301 **NAV** SA20 0JD 01550 720449

www.myddfai.org

Dilynwch Geolwybr cerrig adeiladu Llanymddyfri

P&D AM DDIM WC

Ewch i'r Ganolfan Ymwelwyr a Threftadaeth

P&D AM DDIM WC

Gorsaf fwydo'r Barcud Coch, Llanddeusant

P FREE £

**OS** SN 772260 **NAV** SA19 9YG 01550 740617

www.redkiteswales.co.uk

### Os oes gennych hanner diwrnod (2-4 awr):

Cerdded ar Fynydd Myddfai

P FREE

Ymweld â chaffi a siopau Llanymddyfri

P&D AM DDIM WC

Archwilio'r gwersylloedd Rhufeinig ar Y Pigwn

**OS** SN 845300 P FREE AM DDIM WC

www.geoparcyfforestfawr.org.uk/llawrlwytho

Beicio ar lwybr cylchog Cronfa Ddŵr Wysg o Bont ar Wysg

**OS** SN 820271 **NAV** LD3 8YD P FREE AM DDIM

### Os oes gennych ddiwrnod llawn (6-8 awr):

Ewch am dro ar y trên ar hyd Rheilffordd Calon Cymru

**OS** SN 763345 **NAV** SA20 0BG 01554 820586

www.heart-of-wales.co.uk P FREE £

Beicio ar hyd ffyrdd bach tawel heibio Llanddeusant ac yna gerdded at Llyn y Fan Fach i gael eich cyfareddu gan y marianau a'r hen chwedl

**OS** SN 799238 **NAV** SA19 9UN

AM DDIM



# 5. Bro'r Sgydau - rhaeadrau, rhedynnau a ffawtiau

## Pontneddfechan, Ystradfellte, Y Coelbren

**Dechreuwch ar eich ymweliad â Bro'r Sgydau drwy alw heibio Canolfan y Sgydau yng nghanol Pontneddfechan; cewch fwynhau arddangosfa'r Geoparc, a chasglu'r wybodaeth fydd ei angen arnoch i ddeall a mwynhau'r ardal.**




Cewch yma fwy o raeadrau trawiadol y filltir nag ar unrhyw gasgliad arall o afonydd ym Mhrydain. Pa le gwell i ymweld â fe - mewn glaw neu hindda? Mwynhewch dro dri chwarter awr ar hyd y llwybr ar lannau Afon Nedd Fechan ac Afon Pyrddin nes cyrraedd Sgwd Gwladus, ac yna dychwelwch i'r pentref am ginio yn y dafarn. Rhyw bum munud yn y car i fyny'r ffordd mae'r maes parcio dan Graig Dinas. Mae hen dramffyrdd yn gwneud llwybrau cerdded ardderchog rhwng gweithfeydd segur mwyngloddiau calchfaen a silica, ac yna trwy'r Gweithfeydd Powdwr Du lle mae'r bwrlwm a fu bellach yn dawel ers 1931. Mwynhewch gerdded at Sgwd yr Eira gan fynd y tu hwnt i len y rhaeadr os oes gennych hanner diwrnod sbâr - un ai o Graig Dinas neu Waun Hepste. Mae Canolfan y Sgydau yn gwerthu copi o becyn Bro'r Sgydau.



Sgwd Gwladus, Afon Pyrddin

## Canolfan y Sgydau

**OS** SN 901076 **NAV** SA11 5NR 01639 721795 www.bannaubrycheiniog.org

**Cyrraedd yno** X5 Castell Nedd (13 milltir) P FREE

### Os oes gennych awr neu lai:

Rhagarweiniad i'r Geoparc yng Nghanolfan y Sgydau - mae'r oriau agor yn amrywio yn ôl y tymor

P FREE AM DDIM WC

Dro bach ar lan Afon Sychryd at Bwa Maen o galchfaen blygedig

P FREE AM DDIM

Ymweld â Maen Llia, maen hir o'r Oes Efydd

**OS** SN 924192 P FREE AM DDIM

Tro o gwmpas Distyllfa Wisgi Cymreig Penderyn - gweler adran 2

Bwyd a diod ar gael ym Mhontneddfechan neu Ystradfellte.

P FREE WC

Yng Nghwm Porth, ewch yn ofalus i lawr at Porth yr Ogof, y porth mwyaf i ogof yng Nghymru lle mae Afon Mellte'n diflannu dan y ddaear am chwarter milltir

**OS** SN 928124 **NAV** CF44 9JF

P FREE AM DDIM WC

### Os oes gennych ddiwrnod llawn (6-8 awr):

Cyfunwch lwybrau gwahanol er mwyn ymweld â phob un o'r rhaeadrau mewn tro cylch o Waun Hepste

P&D AM DDIM

### Os oes gennych hanner diwrnod (2-4 awr):

Defnyddiwch glustffonau weindio'ch hunan i archwilio'r Gweithfeydd Powdwr Du

P FREE AM DDIM

Dilynwch y llwybrau llafar, gan gerdded at Afon Nedd Fechan ac Afon Pyrddin i weld y rhaeadrau.

P FREE AM DDIM

Cerdded llwybr Cwm Gwrelych

**OS** SN 897068 **NAV** SA11 5LU

P FREE AM DDIM

Ymweld â Sgwd Henrhyd ger Y Coelbren sy'n perthyn i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol gweler adran 3




## Oeddech chi'n gwybod?

Y gair Rwsiaidd ar gyfer briciau tân yw 'Dinas', gan fod y graig silica a gloddiwyd yma yn Nghraig y Dinas wedi ei ffurfio i fewn i friciau tân a'i allforio yn rhyngwladol.

# 6. Aberhonddu hanesyddol - afonydd ac rhagf

## Eglwys gadeiriol, camlas, bryngaer, Honddu a Wysg

**Ewch i Ganolfan Ymwelwyr Aberhonddu'n gyntaf, gan fod tri Geolwybr yn cychwyn oddi yma – ar hyd yr Afon Wysg ac i fyny Afon Honddu i weld bywyd yr afon, neu i fyny Pen-y-crug i weld golygfeydd dros Ddyffryn Wysg hyd at y Bannau.**

Arhoswch yn y dref i siopa ac ymweld â'r Eglwys Gadeiriol, amgueddfeydd, siopau a chaffi neu fwyty. Cewch gyfle i fynd ar gwch neu ganŵ ar y gamlas a'r afon.

## Oeddech chi'n gwybod?

Dathlodd camlas hiraf Cymru, Camlas Mynwy ac Aberhonddu, ei phen-blwydd yn 200 yn 2012.




©Hawlfraint CPAT

Bryngaer Pen-y-crug, Aberhonddu

## Canolfan Groeso Aberhonddu

**OS** SO 046287 **NAV** LD3 9DA 01874 622485 www.breconbeacons.org.uk P FREE

**Cyrraedd yno** T4, X63

Y Fenni (21m i'r dwyrain), Merthyr Tudful (19.3m i'r de) neu Lanymddyfri (21m i'r dwyrain)

### Os oes gennych awr neu lai:

Eglwys Gadeiriol Aberhonddu a chanolfan treftadaeth AM DDIM

**OS** SO 044290 **NAV** LD3 9DP 01874 623857

www.breconcathedral.org.uk

P FREE £ WC AM DDIM

Amgueddfa Gatrodol £ WC

**OS** SO 049283 **NAV** LD3 7EB 01874 613310

www.royalwelsh.org.uk

Rhwyfo ar yr Afon Wysg ger promenâd Aberhonddu

**OS** SO 037289 **NAV** LD3 9AY 01874 622995

P&D WC

Cerdded neu feicio ar hyd llwybr tynnu Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu o fasn y theatr hyd at Loc Brynich neu Dalybont hyd yn oed

**OS** SO 046282 **NAV** LD3 8LE

P&D AM DDIM WC

### Os oes gennych hanner diwrnod (2-4 awr):

Dilynwch Geolwybrau Pen-y-crug, yr Afon Wysg, a thref Aberhonddu

P&D AM DDIM WC

Ewch am dro mewn cwch ar y gamlas

**OS** SO 046282 **NAV** LD3 7EW 01874 622995

www.dragonfly-cruises.co.uk

neu drip mewn canŵ o Ganada 0800 6122890

www.beaconparkdayboats.co.uk

Siopa, bwyta, a mwynhau tref Aberhonddu

P&D AM DDIM WC

### Os oes gennych ddiwrnod llawn (6-8 awr):

Dilynwch gerdyn llwybr Pen y Fan a Chribyn i ganol y Bannau o faes parcio Cwm Gwdi'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol

**OS** SO 025248 **NAV** LD3 8LE

P FREE AM DDIM



# 7. Y Mynydd Du – cyfoeth y ddaear

## Canolfan y Mynydd Du a Chwareli'r Mynydd Du

**Rhowch gychwyn da i'r diwrnod drwy gael diod neu frecwast yng Nghanolfan y Mynydd Du ym Mrynaman, cyn anelu i fyny ffordd y mynydd at hen adeiladau Chwareli'r Mynydd Du.**

Yno, gellwch fwynhau golygfeydd i'r gorllewin at Sir Benfro, at Fôr Hafren i'r de, ac at Bumlumon i'r gogledd ar ddiwrnod clir. Bu calchfaen a chraig a thywod silica'n cael eu cloddio'n llafurus yma hyd bumdegau'r ganrif ddiwethaf. Gallech ddod ar draws cromlechi o'r Oes Efydd ar Ffordd y Bannau i'r dwyrain a'r gorllewin, neu gallech fwynhau mwy o gysgod yn y dyffrynnoedd coediog ar lethrau deheuol y Mynydd Du.

## Oeddech chi'n gwybod?

Roedd dyffryn Aman yn un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg pan ymwelodd George Borrow â 'Gwter Fawr' (heddiw Brynaman) yn y 1840au - ac mae'n parhau i fod felly heddiw




Odyn, Chwarel Herbert

## Canolfan y Mynydd Du

**OS** SN 713143 **NAV** SA18 1BU 01269 823400 www.brynaman.org.uk

**Cyrraedd yno** X63 Rhydaman (7.5 milltir)

### Os oes gennych awr neu lai:

Gyrrwch i fyny ffordd y mynydd gan fwynhau'r golygfeydd, ac archwilio adeiladau chwarelyddol y Mynydd Du

**OS** SN 733188 **NAV** SA19 9PE

www.breconbeacons.org/blackmountainquarries

P FREE · AM DDIM

Bwyd a diod ar gael yng Nghanolfan y Mynydd Du, Brynaman

P FREE · AM DDIM · WC

Archwiliwch ddyffryn cysgodol Henllys o Ystradowen gan ddefnyddio'r Geolwybr neu lwybr llafar

**OS** SN 686135 **NAV** SA9 2YJ

www.geoparcyfforestfawr.org.uk/llawrlwytho

P FREE · AM DDIM

Dilynwch y llwybr 'O Gwm i Gwm' gan gychwyn o Garnant yn Nyffryn Aman

**OS** SN 750123 **NAV** SA18 1DZ

AM DDIM

### Os oes gennych hanner diwrnod (2-4 awr):

Dilynwch lwybr y Ceunentydd Creigiog o'r Ganolfan

P FREE · AM DDIM

### Os oes gennych ddiwrnod llawn (6-8 awr):

Archwiliwch ddarn o Ffordd y Bannau o Chwareli'r Mynydd Du

P FREE · AM DDIM

Dilynwch gamau'r Twrch Trwyth, baedd gwyllt chwedlonol, gan ymweld â mannau y cyfeirir atynt yn y Mabinogion. Chwiliwch am becyn llwybrau Dyffryn Aman yn y ganolfan

www.aattt.org.uk



# 8. Y Bannau Clasurol

## Mynydd Illtud, Glyn Tarell a Chanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol

**Dewiswch daflen Geolwybr o Ganolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol ac yna fwynhau mynd am dro ar y tir comin ar Fynydd Illtud. Ewch yn ôl i Ganolfan Ymwelwyr i gael paned neu ginio.**

Dafliad carreg i ffwrdd mae Glyn Tarell, a'r olygfa eiconaidd o Ben y Fan a'r Corn Du i'r dwyrain, a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Craig Cerrig-gleisiad a Fan Frynych i'r gorllewin.

## Oeddech chi'n gwybod?

Mae pen gwastad Pen y Fan yn ganlyniad o gap caled o dywodfaen Haenau'r Llwyfandir - mae crychdonnau yn y creigwely yn bradychu ei wreiddiau dyfrllyd.



## Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol

**OS** SN 977263 **NAV** LD3 8ER 01874 623366 www.bannaubrycheiniog.org

**Cyrraedd yno** T4 Merthyr Tudful (17.2 milltir), Llanymddyfri (17.6 milltir), Y Fenni (26 milltir)

### Os oes gennych awr neu lai:

Ymweld â'r arddangosfa, siop ac ystafell de yn y Ganolfan, rdal chwarae newydd i'r plant y tu allan

P&D AM DDIM WC

Mynd am dro ar y tir comin gan ddilyn 'What to see from the NPVC'

P&D AM DDIM

Mynd am dro byr i'r Warchodfa Natur Genedlaethol yng Nghraig Cerrig-gleisiad

**OS** SN 982203 **NAV** LD3 8NL

P&D AM DDIM

Ymweld ag Aberhonddu - siopau, caffis, amgueddfeydd, Eglwys Gadeiriol ayyb
- gweler tudalen 8

P&D AM DDIM WC

### Os oes gennych hanner diwrnod (2-4 awr):

Ewch am dro hirach ar y tir comin e.e. Geolwybr Mynydd Illtud

P&D AM DDIM

### Os oes gennych ddiwrnod llawn (6-8 awr):

Dilynwch gerdyn llwybrau er mwyn dringo Pen y Fan o Storey Arms (nid tafarn!) neu Bont ar Daf

**OS** SN 982203 **NAV** LD3 8NL

P FREE AM DDIM WC

Dilynwch Geolwybr Glyn Tarell oddi yma hefyd, er mwyn gweld golygfeydd gwych o ffurfiau rhewlifol a chwympiadau tir Craig Cerrig-gleisiad

P FREE AM DDIM

